

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Trafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig

## Canllawiau ar gyfer Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

# Pam mae angen inni newid trafnidiaeth wledig?

**Rydyn ni am i gymunedau gwledig yng Nghymru fod â thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a hygyrch sy'n cysylltu â'r gwasanaethau, y gyflogaeth a'r cyfleoedd diwylliannol, cymdeithasol, hamdden ac addysg i'w galluogi i ffynnu, wrth fodloni ein nodau newid hinsawdd hefyd.**


Mae trafnidiaeth wledig dda yn helpu pobl i ffynnu. Fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o bobl mewn ardaloedd gwledig yn ddibynnol ar geir preifat a gall pobl nad oes ganddyn nhw fynediad i gar deimlo'n ynysig. Mae angen inni ddarparu opsiynau teithio cynaliadwy, diogel a dibynadwy ar gyfer cymunedau gwledig.

Rhaid i drafnidiaeth wledig hefyd helpu i gyflawni ein nodau newid hinsawdd. Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni sefyllfa sero net yng Nghymru erbyn 2050 ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi datgan argyfyngau hinsawdd. Mae angen inni leihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol ac mae angen inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ardaloedd gwledig yn cyfrannu at hyn.

Mae angen inni feddwl am ein trafnidiaeth wledig mewn ffordd wahanol iawn. Mae angen inni ddysgu gwersi gan gymunedau gwledig llwyddiannus o bedwar ban byd a'u gweithredu yma yng Nghymru mewn ffordd sy'n gweithio i ni.

Mae'n rhaid inni sicrhau mai'r dewis cywir yw'r dewis hawsaf.

- Mae **mwy nag 80%** o Gymru yn wledig
- Mae **traean** o'n poblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig
- Mae **chwarter** o boblogaeth wledig Cymru yn byw mewn tlodi



# Yr unig opsiwn sydd ar gael i gymunedau gwledig yw bod yn berchen ar gar – ai dyna yw gwirionedd y sefyllfa?



**Mae cymunedau gwledig ym mhedwar ban byd wedi dod o hyd i ffyrdd o ddiwallu eu hanghenion trafnidiaeth drwy gerdded, beicio, rhannu dulliau o deithio a thrafnidiaeth gyhoeddus – gan leihau eu dibyniaeth ar geir preifat.**

### Trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'i chydlynu

- Yn yr Almaen, mae'r AST (Anruf Sameln Taxi) yn wasanaeth tacsi-bws cost isel sy'n llenwi bylchau ar adegau o'r dydd pan nad yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael neu mewn lleoliadau gwledig lle nad yw ar gael.
- Yn Bern, canton yn y Swistir, gwarentir bod gwasanaethau bws lleol ar gael i bentrefi bach, sydd wedi'u cysylltu ag amserlen 'pwls' genedlaethol.

### Tocynnau integredig, fforddiadwy

- Dim ond 49 Ewro mae'r 'Deutschlandticket' yn yr Almaen yn ei gostio, sy'n cwmpasu'r holl drafnidiaeth ar fysiau, tramiau a rheilffyrdd lleol.

### Ffyrdd diogel o gerdded, teithio ar olwynion a beicio yng nghefn gwlad Cymru

- Mae llawer o gymunedau gwledig yn tyfu eu rhwydwaith teithio llesol, gan ei gwneud yn ddiogel a dymunol cerdded, teithio ar olwynion neu feicio rhwng pentrefi a threfi. Yn nes ymlaen yn y Llwybr, byddwn yn rhannu'r enghraifft wych yn Bow Street, yng Ngheredigion.
- Yn Strathaven, yn yr Alban, mae gweithdy trwsio beiciau, gwasanaeth llogi e-feiciau ac e-feiciau cargo (yn ogystal â chlwb ceir trydan a phlatfform rhannu ceir ar-lein!).

### Mannau bywiog a rennir sy'n helpu pobl i osgoi teithiau cymudo diangen a hir, ac sy'n gweithredu fel canolfannau trafnidiaeth yn y gymuned pan fydd angen i chi deithio

- Yn Hook Norton, yn Swydd Rhydychen, mae gofod cydweithio sydd hefyd yn cynnig e-feiciau a chlwb ceir trydan.
- Mae Lund yn Sweden yn newid strydoedd a mannau cyhoeddus i leihau'r angen i deithio, gan hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a rhyngweithio cymdeithasol.

### Cynlluniau trafnidiaeth cymunedol sy'n darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy

- Yn Iwerddon, mae gan gynllun 'Ring a Link' 33 o fysiau mini sy'n ymateb i'r galw sy'n gwasanaethu lleoliadau anghysbell.

### Rhwydwaith o glybiau ceir trydan sy'n galluogi pobl i gael mynediad at geir a faniau ar gyfer gwaith a hamdden

- Yn y Swistir, mae gan bron i 170 o gymunedau gwledig glybiau ceir, gyda mwy na 50,000 o aelodau.

### Mae technoleg a data yn cefnogi pobl i gynllunio a thalu am eu teithiau wrth fynd

- Yn Tartu, Estonia, mae technoleg ffôn symudol yn hwyluso taliadau bws digyswllt syml wrth fynd. Mae'r system hefyd yn helpu i wella sut mae gwasanaethau bysiau cysylltiol a gorsafoedd llogi beiciau yn cael eu cynllunio.


# Sut mae gwneud hyn yn realiti i gefn gwlad Cymru?

**Bydd dilyn dull 'both ac adain olwyn' o ran teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth a rennir yn helpu cymunedau gwledig i gael mynediad gwell i'w pentref neu dref leol. Yna bydd cyfnewidfeydd effeithiol yn cysylltu pobl â threfi a dinasoedd mwy, gan wneud y defnydd gorau o asgwrn cefn y rheilffyrdd a rhwydweithiau Traws Cymru .**

## Astudiaeth Achos | Bow Street, Ceredigion

Mae dull 'both ac adain olwyn' wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus o amgylch Bow Street yng Ngheredigion i wneud teithio cynaliadwy yn opsiwn cyfleus a dymunol.

- Mae llwybr cyd-ddefnyddio yn cysylltu'r orsaf reilffordd â Champws Arloesi a Menter Aberystwyth.
- Mae llwybr cerdded a beicio yn cysylltu â chymuned wledig gyfagos Penrhyn-coch.
- I'r gogledd o Bow Street, adeiladwyd cysylltiadau cerdded a beicio newydd i gysylltu Llandre ac ehangu'r opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ymhellach ar gyfer cymunedau gwledig.
- Drwy gyfuno teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, mae cymunedau gwledig wedi'u cysylltu â'r aneddiadau mwy o faint yn Aberystwyth a Machynlleth ac ymlaen drwy gysylltiadau trawsffiniol â Birmingham.




Llwybrau cerdded presennol — Llwybrau cerdded y dyfodol — Llwybrau cerdded presennol

Llwybrau beicio presennol — Llwybrau beicio'r dyfodol — Llwybrau cerdded a beicio'r dyfodol

# Mae'r gwaith i wella trafnidiaeth wledig yng Nghymru eisoes ar y gweill

- Mae ein **cynllun peilot E-Symud** wedi llogi e-feiciau ac e-feiciau cargo i gymunedau lleol. Gall e-feiciau helpu'n gynyddol gyda theithiau lleol ar draws cefn gwlad Cymru.
- Mae **gwasanaeth newydd Sherpa** ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn darparu gwasanaeth bws dibynadwy o ansawdd uchel i ymwelwyr a thrigolion lleol, sy'n eu cysylltu a'r lle y maen nhw am fynd iddo. Gallai hyn gael ei ailadrodd mewn mannau twristaidd eraill ledled Cymru er mwyn lleihau tagfeydd ceir.
- Mae ein **cynllun peilot Fflecsi** wedi dangos y gall trafnidiaeth sy'n seiliedig ar alw ddarparu gwasanaeth hyblyg, ac mae wedi bod yn arbennig o lwyddiannus mewn cymunedau gwledig.
- Mae **clybiau ceir trydan** yn cynnig ffordd newydd o yrru i bobl sydd eisiau defnyddio car yn llai ac i bobl sy'n ei chael hi'n anodd fforddio'r gost uchel o gynnal car.
- Mae **Partneriaeth Ogwen** wedi creu man gweithio cymunedol ym Methesda sy'n darparu ar gyfer staff sy'n gweithio ar ystod o brosiectau, o gymorth busnes i gynhyrchu ynni.



# Beth allwn ni i gyd ei wneud dros y tair blynedd nesaf?

- Bydd diwygio gwasanaethau bws yn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd i greu system fysiau sy'n gwasanaethu cefn gwlad Cymru yn well – nid llwybrau sy'n gryfach yn fasnachol yn unig.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau i helpu pobl i weithio'n fwy hyblyg mewn ardaloedd gwledig, gan leihau'r angen i deithio pellterau hir ac ehangu mynediad at gyflogaeth o ansawdd uchel mewn ardaloedd gwledig.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ei Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol gwledig ar gynlluniau diogelwch ffyrdd rhanbarthol.
- Gall awdurdodau lleol barhau i ddatblygu mapiau o rwydweithiau teithio llesol, gan nodi a chyflwyno llwybrau sy'n cysylltu cymunedau gwledig â'r gwasanaethau a chyfleusterau yn eu tref agosaf.
- Gallwn oll adeiladu ar y prosiectau peilot E-Symud i archwilio ffyrdd y gellir gwneud e-feiciau ac e-feiciau cargo yn fwy hygyrch.
- Gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gydag ystod o bartneriaid i gynyddu nifer y clybiau ceir cymunedol yng Nghymru.
- Gall Trafnidiaeth Cymru gefnogi integreiddio ar draws pob math o drafnidiaeth wledig, o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i glybiau ceir a phartneriaethau trafnidiaeth cymunedol.





# Beth allwn ni ei wneud dros y tymor hwy?

- Gallwn fynd ati mewn modd mwy uchelgeisiol i wella seilwaith teithio llesol mewn cymunedau gwledig, a rhyngddynt, gan fanteisio ar y cyfleoedd a grëir drwy feiciau trydan.
- Gallwn greu trefi arddangos teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i roi sylw i arferion da.
- Rydym wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio'r fflyd bysiau gyfan ledled Cymru erbyn 2035.
- Gallwn gydlynu ein gwasanaethau bws a rheilffyrdd yn well er mwyn darparu cyfnewidfeydd mwy cyfleus.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector preifat i gyflawni'r seilwaith gwefru cerbydau allyriadau isel iawn sydd ei angen mewn ardaloedd gwledig.
- Gallwn gefnogi'r potensial yn ardaloedd gwledig Cymru i ddatblygu a defnyddio technolegau newydd, gan gynnwys technolegau digidol a hydrogen, i bontio i economi werdd a thrafnidiaeth gynaliadwy.

# Astudiaeth Achos Clybiau Ceir yn y Swistir

**Mae gan bron 170 o gymunedau gwledig yn y Swistir glybiau ceir.** Mae clybiau ceir yn ddewis hyblyg, cyfleus, fforddiadwy ac amgylcheddol gynaliadwy i bobl yn lle perchen ar gar.

Yn y Swistir, dechreuodd clybiau ceir pan ddaeth sawl clwb rhanbarthol ynghyd i ffurfio un mudiad cenedlaethol, Mobility.

Bellach mae gan Mobility dros 50,000 o aelodau sy'n gallu codi cerbyd unrhyw le yn y wlad. Mewn ardaloedd gwledig sy'n boblogaidd â thwristiaid, fel y Tessin, mae defnydd trwm yn cael ei wneud o geir y clwb gan aelodau sy'n ymweld â'r ardal.

Yng Nghymru, mae TripTo yn fenter gymdeithasol ddielw sy'n goruchwylio pedwar clwb ceir trydanol yn Llanidloes, Machynlleth, Penrhyn-coch a Llandrindod. Mae calendr ar-lein yn caniatáu i aelodau archebu car unrhyw bryd, am yr amser y mae ei angen yn unig, am gost resymol.

Mae aelodaeth o glybiau ceir yn cynyddu ac yn dewis arall yn lle perchnogaeth ail gar.

Mae TripTo yn gweithio gyda TrydaNi i ddatblygu pedwar clwb ceir arall yn Ne-orllewin Cymru. Mae gan y ceir hyn system fynediad ddi-allwedd, trwy ap a ddefnyddir i hefyd archebu a thalu.

Ewch i wefan Tripto yma: **Croeso i TripTo - Clybiau Ceir Trydan Canolbarth Cymru**



## Astudiaeth Achos **Gwasanaethau bws gwarantedig yn Bern**

Yng nghanton Bern, y Swistir, mae pa mor aml y mae gwasanaeth bws cyhoeddus yn rhedeg yn cael ei warantu gan y gyfraith. Hefyd, rhaid i breswylwyr allu cyrraedd eu tref fawr agosaf heb orfod newid bws mwy nag unwaith.

Mae gwarant i bentrefi bach bod o leiaf 4 a hyd at 15 o wasanaethau bws dwyffordd yn eu gwasanaethu bob dydd, sydd wedyn yn cysylltu â threnau a bysiau sy'n rhedeg ar amserlen y 'pwls' cenedlaethol. Mae'r trefniant hwn yn lleihau amseroedd cyfnewid ac yn ennyn hyder pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel dewis all gystadlu â'r car.

Yng Nghymru, rydym yn gweithio ar ddeddfwriaeth i ddiwygio bysiau a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru weithio gydag Awdurdodau Lleol i drefnu gwasanaethau bysiau gwell ledled y wlad a chynnig gwasanaeth tecach i ardaloedd gwledig.



# Astudiaeth Achos **Ring a Link, Iwerddon**

Sefydlwyd Ring a Link yn 2001 fel darparwr gwasanaeth cludiant cymunedol lleol gyda ffocws ar allgáu cymdeithasol.

Mae'n rhedeg dros 30 o gerbydau bob dydd sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig nad oes ganddynt fawr o opsiynau eraill o ran trafnidiaeth gyhoeddus. Dros amser, mae Ring a Link wedi cyflwyno gwasanaethau hefyd sy'n ymateb i'r galw, yn hytrach na dim ond gwasanaethau sy'n rhedeg ar lwybrau sefydlog.

Yng Nghymru, rydym wedi cynnal treialon llwyddiannus â gwasanaeth sy'n ymateb i'r galw o'r enw Fflecsi, o dan ofal Trafnidiaeth Cymru, mewn ardaloedd gan gynnwys Rhuthun, Conwy a Sir Benfro. Gyda Fflecsi, mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn archebu teithiau ar ap neu drwy ganolfan alwadau a chael eu casglu a'u gollwng unrhyw le yn ardal y gwasanaeth yn hytrach na dim ond wrth arosfannau bysiau penodedig.

Mae gan Gymru nifer o fudiadau cludiant cymunedol rhagorol mewn ardaloedd gwledig. Un o'r rheini yw Dolen Teifi, mudiad dielw sy'n darparu cludiant fforddiadwy a hygyrch ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Yn ystod Covid, helpodd Fwrdd Iechyd Hywel Dda drwy redeg bws gwennol o ganol tref Llanelli i Ganolfan Frechu.

Gall cludiant cyhoeddus sydd â'i ffocws ar y gymuned, ac sy'n ymateb i alw, fod yn rhan werthfawr o'r ateb i ardaloedd gwledig.



# Astudiaeth Achos **Gweithio mewn Hybiau**

Gall Hybiau Gwaith Lleol helpu pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig i gael gwaith o ansawdd uchel, a lleihau yr un pryd yr angen i gymudo.

Mae hybiau hefyd yn creu amgylchedd gwaith mwy addas a chynaliadwy i bobl na gweithio gartref.

Mae MSParc ar Ynys Môn yn cynnig gofod gweithio hyblyg yn ogystal â chymorth a chyfalaf menter i fusnesau.

Mae Partneriaeth Ogwen wedi creu man gweithio cymunedol ym Methesda gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd. Mae'n weithle i staff sy'n gweithio ar amrywiaeth o brosiectau, o gymorth busnes i gynhyrchu ynni.

Mae'r Dove Workshops yn y Banwen yn cyfuno gofod gwaith â chanolfan dysgu oedolion, gwirfoddoli, profiad gwaith, gwasanaethau galw heibio TG, cymorth gwaith, ysgrifennu CV a hyd yn oed gofal plant.

Mae cyrff sector cyhoeddus ledled Cymru yn dechrau rhannu mannau gwaith i roi mwy o opsiynau i bobl, yn nes at eu cymunedau.

Nid yw gweithio o bell yn ymarferol i bob sector, ond i'r rheini y mae, gall gynnig mwy na manteision o ran trafnidiaeth. Gall fod yn hwb i economïau, amgylchedd, diwylliant a'r gymdeithas yn yr ardal wledig leol.



# Astudiaeth Achos **Clybiau Ceir yn y Swistir**

Cynllun benthyg beiciau trydan yw E-move, yn Aberystwyth, y Rhyl, y Barri, Abertawe a'r Drenewydd, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei ddarparu gan Sustrans.

Mae'r cynllun yn cynnig benthyg beiciau a beiciau cargo trydan i bobl, busnesau a mudiadau am bedair wythnos iddynt gael gweld a fyddai beic o'r fath yn gweithio iddyn nhw cyn gwario arian i brynu un.

Nod E-Move yw lleihau allyriadau carbon a gwella ansawdd aer trwy deithio ar feic yn lle teithio mewn car.

Mae e-feiciau ac e-feiciau cargo yn cynyddu pellter y teithiau a'r mathau o deithiau y gellir eu gwneud ar feic, ac yn gwneud beicio'n opsiwn i lawer mwy o bobl. Mae gallu teithio'n bellach ac ar ffyrdd mwy serth yn cynyddu potensial beicio mewn ardaloedd gwledig.

Gall defnyddio e-feiciau cargo i symud nwyddau o gwmpas leihau costau i fusnesau. Mae eu defnyddio yn ffordd i gael cyhoeddusrwydd da a gall fod yn ffordd wych o ennyn diddordeb cwsmeriaid o'r gymuned gyfagos.

Cewch ragor o fanylion yn:
**Newid i deithio cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru: Stori Tim - Sustrans.org.uk**



# Astudiaeth Achos **Sherpa’r Wyddfa**

Dangosodd astudiaeth yn 2019 y gallai gwasanaeth bws arbenigol wella opsiynau cludiant i’r 8 miliwn o bobl sy’n ymweld â Pharc Cenedlaethol Eryri bob blwyddyn, gan ateb y cynnydd yn y galw ar ffyrdd cul heb gymryd camau i rwystro gyrwyr nac adeiladu ffyrdd newydd.

Mae gwasanaeth bws Sherpa’r Wyddfa, a gafodd ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru (TrC), Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru, yn cysylltu’r prif lwybrau cerdded, meysydd parcio, pentrefi ac atyniadau yn yr ardal â’i gilydd.

Mae TrawsCymru, Fflecsi, y Rheilffordd a Teithio Llesol, yn cysylltu â gwasanaeth Sherpa, gan gysylltu Caernarfon, Porthmadog, Bangor a Betws-y-Coed, gan leihau nifer y cerbydau yn yr ardal yn sylweddol.

Gan fynd yn groes i dueddiadau cyffredinol defnyddio bysiau y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y teithwyr ar Sherpa’r Wyddfa wedi cynyddu’n sylweddol ers ei lansio, gan fynd heibio’r nod o ragor na hanner miliwn o deithwyr y flwyddyn yn 2023. Bydd manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach hefyd.

Mae hyn yn dangos manteision meddwl yn wahanol am drafnidiaeth i dwristiaid mewn ardaloedd gwledig.

Ewch i wefan Sherpa yma:
**Sherpa’r Wyddfa | Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru)**




OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46796, ISBN digidol 978-1-83577-159-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg